# Tasg 2

**(Estynnol, sbardun 3)**

1.
Edrychwch ar yr ymadroddion **trwm** yn y darn. Trafodwch â'ch partner beth yw'r ystyr, drwy ddarllen **y frawddeg i gyd** bob tro.

Wedyn, dewiswch yr ymadrodd sy'n golygu:

- roedd hi'n amlwg pa gaseg oedd yr orau
- roedd (y gaseg) yn mynd mor gyflym â phosibl
- fe fyddai Twm yn cwympo ac yn colli'r ras.
- roedd (y gaseg) yn methu rhedeg rhagor
- mewn gwirionedd
- nid oedd yn mentro
- eto ac eto; dro ar ôl tro

2.
Mae **dwy gymhariaeth** yn y darn. Beth ydyn nhw?

3.
Darllenwch y llinellau hyn eto:

> Rhoddodd ei phen i'r gaseg yn awr a llamodd hithau ymlaen ar ôl Biwti. Teimlodd Twm ryw ias yn mynd drwyddo wrth weld ei chyflymder. Pwysai ymlaen i dorri'r gwynt a theimlai fod y gaseg ac yntau'n un. Bron na allai dyngu fod ei galon ef a'i chalon hithau'n curo'r un pryd.

Pa ddarlun y mae T. Llew Jones yn ei greu? Pwy yn y dosbarth all dynnu llun y darlun hwn?
Beth yw ystyr y llinell olaf?